**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2020 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd P Howe

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

### 56 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cafodd ymddiheuriad dros absenoldeb ei dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill, E. Webster and A. Cox.

### 57 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

### 58 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

### 59 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2020 yn rhai cywir.

**60 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 06.01.20 - 09.02.20**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 6 Ionawr 2020 i 9 Chwefror 2020.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad.

**61 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**62 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 11.01.20 - 13.02.20**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 11 Ionawr 2020 i 13 Chwefror 2020.

Roedd y diweddariad yn cynnwys ymatebion i'r cwestiynau blaenorol a godwyd gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**63 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 06.01.20 - 09.02.20**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 6 Ionawr 2020 i 9 Chwefror 2020.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**